# Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Adroddiad Blynyddol | 2005 | Cymru

# CYNNWYS

Rhagair gan Cherry Short, Comisiynydd Cymru y CRE 3

1. Rheoleiddio ar gyfer cydraddoldeb 4

2. Defnyddio ein pwerau cyfreithiol 7

3. Gweithio gydag eraill

8

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY
COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
St Dunstan's House
201 – 211 Borough High Street
Llundain SE1 1GZ

Swyddfa yng Nghymru:
Tŵr y Ddinas (3ydd llawr)
Ffordd y Brodyr Llwydion
Caerdydd CF10 3AG

Cyhoeddwyd Gorffenaf 2006
ISBN 1 85442 603 6 (fersiwn argraffedig dwyieithog)
ISBN 1 85442 605 2 (fersiwn Cymraeg PDF)

# RHAGAIR

## Gan Cherry Short, Comisiynydd Cymru y CRE

Mewn materion o hiliaeth a chydraddoldeb mae'n rhaid cofio o hyd am y ffordd y gall problemau newydd godi, hyd yn oed wrth i hen broblemau ailymddangos mewn diwyg newydd. Yn 2005 dihunodd Cymru i hyd a lled y newidiadau a achoswyd wrth i ymfudwyr newydd gyrraedd. Ni all unrhyw un ohonom fod yn siŵr ym mha ffordd y bydd y symudiadau poblogaeth newydd hyn yn effeithio ar Gymru: yr unig beth allwn ni ddweud fel y brif wlad ar gyfer mewnfudo yn y DG yw y bydd disgwyl y bydd Cymru am gadw ei thraddodiad hanesyddol o estyn croeso. Mae ein menter Croeso, a lansiwyd tua diwedd y flwyddyn er mwyn cefnogi gwaith cysylltiadau hiliol da, yn rhan o'n gwaith i wneud yn siŵr y cyflawnir y dyhead hwn.

Y llynedd hefyd mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynllun cydraddoldeb hiliol effeithiol, gan gychwyn rhaglen ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n agored i graffu. Mae sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn creu cynlluniau effeithiol yn rhan o waith rheoleiddiol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol fel bod awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn bodloni'r ddyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

Fel y crybwyllais yn fy rhagair y llynedd mae wedi parhau i fod yn anodd i ni 'sefydlu rôl awdurdodol fel rheoleiddiwr sy'n rhaid gwrando arno ac fel hyrwyddwr deddfwriaeth y mae'n rhaid dilyn ei ofynion, tra ar yr un pryd gynnal perthynas agored adeiladol gyda chyrff sydd angen ein cyngor os ydynt i wneud cynnydd'. Parha hyn i fod yr her allweddol ar gyfer y CRE yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf, cyn y bydd yn dod yn rhan o Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y dyfodol.

Yn ystod y blynyddoedd y bûm i yn gomisiynydd yng Nghymru deuthum i werthfawrogi cefnogaeth ac ymglymiad nifer di-ri o sefydliadau ac unigolion ymroddedig yng ngwaith cydraddoldeb hiliol. Heb eu cyfranogiad hwy ni allai'r CRE gyflawni ei amcanion. Hoffwn ddiolch iddynt, ac yn arbennig aelodau ein bwrdd ymgynghorol, am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Hefyd rhoddaf air o ddiolch arbennig i staff CRE Cymru sydd wedi bod yn gyson yn safon ragorol eu gwaith ac am deyrngarwch eu hymrwymiad i'r CRE.

Cherry Short

**Cherry Short**

**Dihunodd Cymru i hyd a lled y newidiadau a achoswyd wrth i ymfudwyr newydd gyrraedd**



# 1 RHEOLEIDDIO AR GYFER CYDRADDOLDEB

Lansiodd y Cynulliad Cenedlaethol ei gynllun cydraddoldeb hiliol, gan amlinellu nodau realistig i weithio tuag atynt ym maes cydraddoldeb hiliol

Yn ystod 2005 buom yn canolbwyntio ar sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn bodloni eu gofynion cyfreithiol o dan y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol (y cyfeirir ati hefyd fel y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol), fel a nodir yn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Ymrwymir rhai awdurdodau hefyd gan ddyletswyddau penodol; er enghraifft, i gyhoeddi cynllun neu bolisi cydraddoldeb hiliol, ac i fonitro eu swyddogaethau o ran cyflogaeth.

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Ym mis Mawrth lansiodd y Cynulliad Cenedlaethol ei gynllun cydraddoldeb hiliol (CCH) a ddatblygwyd gan aelodau'r Cynulliad a staff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod 2004, gyda chyngor gan CRE Cymru. Canmolwyd y CCH gennym fel un teilwng o'i gyfrifoldebau ac un a allai weithredu fel model ar gyfer awdurdodau cyhoeddus eraill ledled Cymru.

Mae'r CCH a'i gynlluniau gweithredu ategol yn amlinellu nodau realistig i'r Cynulliad weithio tuag atynt ym maes cydraddoldeb hiliol. Mae cymal cyntaf y cyfnod tair blynedd a gwmpesir gan y CCH, yn canolbwyntio ar ddatblygu systemau effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau a monitro meysydd o gyflogaeth, y mae eu hangen ar y Cynulliad er mwyn bodloni ei gyfrifoldebau o dan y ddyletswydd cydraddoldeb hiliol.

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, y ddeddfwriaeth sefydlol ar gyfer Cynulliad Cymru, mae gan y Cynulliad ddyletswydd i weithio dros gydraddoldeb yn yr ystyr ehangaf. Yn dilyn Papur Gwyn ar wella llywodraethu ar gyfer Cymru, oedd yn cynnig gwahanol newidiadau i'r ddeddfwriaeth wreiddiol, cyhoeddwyd Mesur Llywodraeth Cymru newydd ym mis Rhagfyr. Cynigia'r Papur Gwyn y dylai'r trefniadau presennol, lle mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn un corff yn gyfansoddiadol, gael eu disodli gan lywodraeth a chynulliad ar wahân, ar batrwm tebyg i'r trefniant yn yr Alban. Hefyd cynigiodd y dylai'r ddyletswydd i weithio dros gydraddoldeb fod yn gymwys i'r Llywodraeth yn unig yn y dyfodol.

Ymatebodd y mesur i gynigion gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad, ac adrannau Cymru y tri chomisiwn cydraddoldeb presennol (Comisiwn Cyfle Cyfartal, Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol), a ddadleuodd y dylai'r ddyletswydd cydraddoldeb fod yn gymwys i aelodau'r Cynulliad yn ogystal â'r llywodraeth. Dadleuodd y comisiynau cydraddoldeb mewn datganiad ar y cyd bod y gofyniad presennol ar gyfer aelodau'r Cynulliad i fodloni'r ddyletswydd yn fuddiol, oherwydd cymrwyd camau gweithredu ganddynt mewn ymateb iddo, yn arbennig wrth graffu ar waith y llywodraeth. Roeddem yn teimlo bod y pwynt hwn yn hollbwysig os oedd y Cynulliad i gwrdd â'r ymrwymiadau heriol a nododd yn ei gynllun cydraddoldeb hiliol. Parhaodd ein cyfarwyddwr i gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal fel aelod gwadd sefydlog.

## YMGYRCH MAI 2005 YN AGOSÁU

Bu inni barhau gyda'n hymgyrch Mai 2005 yn Agosáu er mwyn atgoffa prif weithredwyr awdurdodau lleol a ymrwymwyd i'r ddyletswydd i lunio cynllun cydraddoldeb hiliol, bod angen iddynt i adolygu eu cynlluniau erbyn diwedd mis Mai 2005. Anfonasom lythyr pythefnosol rheolaidd at bob Prif

Weithredwr perthnasol yn nodi'r dyddiau gwaith oedd yn weddill tan yr amser terfyn. Y bwriad oedd gwneud yn siŵr bod arweinwyr, nid dim ond staff cydraddoldeb, yn ymwybodol o'r hyn oedd angen ei wneud, a'r canlyniadau pe byddent yn methu datblygu a chyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol.

Er mwyn annog Prif Weithredwyr i wneud hwn yn flaenoriaeth cynhaliwyd arolwg gennym o awdurdodau er mwyn gweld a oeddent yn cydymffurfio gyda'r dyletswyddau penodol mewn cyflogaeth, fel ag y'u nodir yn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Yn anffodus roedd pob un o'r awdurdodau y gwnaethom eu harchwilio heb fod yn cydymffurfio i ryw raddau neu'i gilydd ac felly yn agored i gamau gorfodi gan y CRE.

Cyhoeddwyd adroddiad gennym ar y pwnc hwn ym mis Mehefin ac ymatebodd awdurdodau cyhoeddus drwy lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer y systemau yr oeddent yn cynnig eu rhoi ar waith er mwyn cydymffurfio gyda'r ddyletswydd cydraddoldeb hiliol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, ni fydd y rhain yn barod tan 2007 gan eu bod yn dibynnu ar systemau adnoddau dynol cyfrifiadurol newydd.

Ymatebodd y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn gadarnhaol iawn i'r ymgyrch. Roedd gan bob un ohonynt systemau monitro effeithiol gyda graddfeydd ymateb uchel gan y staff hynny gafodd eu monitro.  Fodd bynnag, nid oeddent yn cydymffurfio'n llawn gyda'r ddyletswydd cyflogaeth benodol oherwydd na wnaethant fonitro pob maes cyflogaeth fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.  Hefyd roeddent yn dal gwahanol ddata ar systemau ar wahân, yn hytrach na dwyn y wybodaeth ynghyd. Mewn ymateb i'n cyngor cydlynodd y tri gwasanaeth eu hymdrechion i adolygu eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol ac i fodloni'r gofynion o dan y dyletswyddau penodol mewn cyflogaeth. Erbyn mis Rhagfyr  roeddent wedi datblygu cynlluniau newydd, oedd yn canolbwyntio ar ddwy flaenoriaeth: materion cyflogaeth-gysylltiedig, a chyfeirio negeseuon atal tân at gartrefi lleiafrifoedd ethnig.

Nid oedd yr ymateb gan awdurdodau lleol mor foddhaol. Ym mis Tachwedd nodwyd ein pryderon mewn adroddiad i Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad. Amlygodd yr adroddiad fethiant uwch reolwyr i flaenoriaethu'n effeithiol, diffyg hyder ymhlith staff wrth ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol, a diffyg unrhyw berthynas rhwng cynlluniau drafft cydraddoldeb hiliol awdurdodau lleol a'u cynlluniau rheoli craidd.

Erbyn diwedd y flwyddyn, dechreuasom ar waith gyda nifer fach o awdurdodau lleol i'w helpu i gyfranogi rhagor mewn arfer da ar gyfer datblygu cynllun cydraddoldeb hiliol, ac i roi gwell dealltwriaeth i ni ar sut i helpu awdurdodau lleol i newid eu harferion gwaith.


Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

**Trevor Phillips cadeirydd y CRE ar ei ymweliad ag Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan Caerdydd ym mis Mawrth, lle cafodd ystafell ysgol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ei hailadeiladu a lle mae staff yr amgueddfa yn ail-greu profiad plant yng Nghymru a orfodwyd i siarad Saesneg yn unig. Bu'n sgwrsio gyda disgyblion o ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Plas Mawr, lle mae bron 10 y cant o'r disgyblion yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, am eu profiad o fod yn siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd heddiw.**

## IECHYD

Yn ystod 2005 gwnaethom ganolbwyntio ar wneud yn siŵr bod yr ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn datblygu cynlluniau cydraddoldeb hiliol addas.  Hefyd gwnaethom fonitro byrddau iechyd lleol, yn dilyn y cryn sylw a roesom iddynt yn 2004. Gwnaethpwyd peth cynnydd wrth i rai rheolwyr ymddiriedolaethau a byrddau ddeall yn well pam ei bod hi'n bwysig nodi blaenoriaethau clir ar gyfer cydraddoldeb hiliol. Fodd bynnag, roedd cryn dipyn eto i'w wneud i sicrhau bod cynlluniau gweithredu addas yn cael eu llunio. Un mater arbennig oedd bod y timau rheoli sy'n gyfrifol am sefydliadau sector iechyd ddim yn ymddangos eu bod yn gweithio drwy gynllun corfforaethol canolog, ond yn hytrach drwy gynlluniau gweithredu oedd yn cystadlu â'i gilydd. Golygai hyn ei bod hi'n llawer mwy anodd i osod blaenoriaethau priodol ar gyfer cydraddoldeb hiliol, ac yna sicrhau eu bod yn digwydd.

Fodd bynnag cafwyd un datblygiad cadarnhaol iawn: dechreuodd Canolfan GIG Cymru ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Fonitro Cydraddoldeb Cleifion ar brosiect dwy flynedd, a oedd ar waith erbyn diwedd y flwyddyn, i gynorthwyo ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru i sefydlu systemau monitro ethnig ar gyfer cleifion.

## TAI

Yn 2005 canolbwyntiodd ein gwaith ar ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'n cod ymarfer newydd ar gyfer tai yng Nghymru. Cynaliasom sesiynau ymgynghori ledled Cymru yn cynnwys un yng Ngogledd Cymru, a drefnwyd ar ein cyfer gan Cymuned, y grŵp cymunedol iaith Gymraeg. Cawsom lawer o adborth defnyddiol, yn arbennig ynglŷn â'r berthynas rhwng polisiau tai a chynllunio a'r awydd ymhlith llawer i weld sylfaen gymunedol gref ar gyfer presenoldeb datblygol y Gymraeg. Ar ddiwedd y flwyddyn roeddem yn dal i ddiwygio'r cod, yr oeddem yn disgwyl ei gyhoeddi yn 2006.

## CYFLOGAETH

Er mwyn paratoi ar gyfer cyhoeddi *Cod Ymarfer Statudol diwygiedig y CRE ar Gydraddoldeb Hiliol mewn Cyflogaeth*, a oedd i ddod i rym ym mis Ebrill 2006, gwnaethom gomisiynu ymchwil i arferion cyflogaeth yn y sector preifat yn ardal Caerdydd, i asesu'r cynnydd ers ymchwiliad ffurfiol y CRE yn nechrau'r 1990au i arferion cyflogaeth ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth.

## HYRWYDDO CYSYLLTIADAU HILIOL DA

Ar ddiwedd mis Tachwedd 2005 gwnaethom lansio Croeso, ein menter cysylltiadau hiliol da, yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Cymerodd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, ran ynghyd â chynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus, preifat a chymunedol yng Nghymru.

Caiff y fenter ei hariannu drwy grant gan y Cynulliad a bydd yn rhedeg tan y gwanwyn 2008 ar y cyd gyda chynllun cydraddoldeb hiliol y Cynulliad. Roedd gweithgareddau o dan faner Croeso i fod dechrau yn 2006, yn canolbwyntio'n arbennig ar ddatblygu trafodaeth mewn cymunedau lleol.




**Menna Jones, cydlynydd menter Croeso, yn cadeirio'r digwyddiad lansio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.**

# 2 DEFNYDDIO EIN PWERAU CYFREITHIOL

**Bu bron i ddwywaith gymaint o geisiadau am gymorth y CRE yn 2005**

Yn ystod 2005 gwnaethom barhau i weithio gyda Stonewall, Y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC), Age Concern, Cyngor Ryng-ffydd Cymru a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal (AOC), ar brosiectau i ddatblygu gallu'r sefydliadau hyn i gynnal gwaith achos gwahaniaethu. Y llynedd gwnaethom adrodd, yn dilyn trafodaethau gyda'r tri comisiwn cydraddoldeb, bod Canolfan Dysgu Gydol Oes Prifysgol Caerdydd wedi cytuno i gynnal cwrs achrededig ar gyfraith gwahaniaethu ar gyfer swyddogion undebau llafur a gweithwyr swyddfeydd Cyngor ar Bopeth. Dechreuodd y cwrs yn 2005, fel y bwriadwyd, gan gwmpasu pob maes cydraddoldeb ac ymarferoldeb mynd ag achos i dribiwnlys cyflogaeth. Cytunodd yr adran Diwydiant a Masnach i ariannu prosiect ychwanegol ar gyfer cynrychiolwyr undebau llafur i'w helpu i ddatblygu eu gallu i gynnal gwaith achos, ac i ddeall gofynion y gwahanol feysydd cydraddoldeb. Mae'r prosiect hwn i ddechrau yn 2006 ac fe'i cynhelir o'n swyddfeydd.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau gwaith achos o swyddfa CRE Cymru yng Nghaerdydd, bu ein swyddog materion cyfreithiol yn ymweld â Gogledd Cymru yn gyson, i weithio'n agos gydag unigolion a grwpiau cymunedol yn y rhanbarth. Rhoesom sylw arbennig i waith allgymorth gyda Sipsiwn a Theithwyr a grwpiau gweithwyr mudol. Hefyd mynychodd ein swyddog sesiynau cefnogi gweithwyr mudol yng nghymoedd De Cymru.

## GWEITHIO GYDA'R PROFFESIWN CYFREITHIOL

Ar y cyd gyda'r EOC a'r DRC, gwnaethom gefnogi'r Gymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth yn y gwaith o sefydlu rhwydwaith o gyfreithwyr yng Nghymru i wneud gwaith pro bono ar achosion gwahaniaethu.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2005 mewn ceisiadau am gymorth o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Adlewyrchodd hyn waith allgymorth helaeth y swyddog materion cyfreithiol a grybwyllir uchod. Rhoddwyd cynrychiolaeth i un achos, ond roeddem yn dal i ddisgwyl y gwrandawiad tribiwnlys pan ddaeth y flwyddyn i ben.

### TABL 1: CEISIADAU A DDERBYNIWYD GAN CRE CYMRU, 2005

| | 2004 | 2005 |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 15 | 28 |
| Nid yn Gyflogaeth | 11 | 21 |
| **Cyfanswm** | **26** | **49** |

### TABL 2: CEISIADAU A DDERBYNIWYD, YN ÔL GRŴP ETHNIG, 2005

| | 2004 | 2005 |
|---|---|---|
| Gwyn | 4 | 7 |
| Asiaidd | 4 | 7 |
| Du | 9 | 19 |
| Tsieineaidd | 1 | 0 |
| Cymysg | 0 | 1 |
| Dim yn gwybod | 3 | 7 |
| Arall | 5 | 8 |
| **Cyfanswm** | **26** | **49** |

Noder: Mae'r categori 'Arall' yn cynnwys pedwar cais gan Sipsiwn a Theithwyr, un Groegwr o Gyprus, un Arab o Dwrci, un o Yemen ac un Eidalwr.

# 3 GWEITHIO GYDAG ERAILL

Yng ngoleuni'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR) sydd i'w sefydlu, mae'r berthynas weithio agos rhwng CRE Cymru, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn parhau i fod yn eithriadol bwysig. Hefyd gwnaethom barhau i weithio gyda gwahanol rwydweithiau sy'n dwyn ynghyd sefydliadau o wahanol feysydd cydraddoldeb i greu ymagwedd ar y cyd tuag at faterion sy'n berthnasol i ni gyd.

**Gwnaethom barhau i weithio gyda rhwydweithiau sy'n dwyn ynghyd sefydliadau o wahanol feysydd cydraddoldeb i greu ymagwedd ar y cyd tuag at faterion sy'n berthnasol i ni gyd**

## ARIANNU ADRAN 44

Yn 2005 gwnaethom ariannu tri chyngor cydraddoldeb hiliol (REC) yn Ne Cymru (wedi eu lleoli yng Nghaerdydd, y Cymoedd ac Abertawe) ynghyd â Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru a Dypren, rhwydwaith sy'n datblygu sy'n cwmpasu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Buom yn gweithio gyda phob un o'r pum sefydliad i'w helpu i ddatblygu ymagwedd fwy strategol at eu hariannu, gan gynnwys dod o hyd i ariannu mwy sefydlog o ffynonellau eraill. Mae'r arian a roddir gennym i'r sefydliadau hyn yn awr yn cynrychioli dim ond cyfran fechan o'u hincwm, ond yn aml fe'u hystyrir gan grwpiau eraill fel sêl bendith gan y CRE.

Gwnaethom gefnogi trafodaethau ymhlith y sefydliadau ynglŷn â'u dyfodol, gan gofio datblygiad y CEHR yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn penderfynodd REC y Cymoedd i ymestyn ei gylch gwaith i gynnwys meysydd eraill o gydraddoldeb.

## BWRDD YMGYNGHOROL CRE CYMRU

Cyfarfu ein bwrdd ymgynghorol ddwywaith yn ystod y flwyddyn i drafod, ymhlith pethau eraill, gynigion ar gyfer ein menter Croeso (gweler tud 6) a'r berthynas rhwng y Gymraeg a chysylltiadau hiliol – er enghraifft effaith wahaniaethol bosibl mesurau a fwriedir i gefnogi'r iaith, a phwysigrwydd dysgu o'r profiad o'r Gymraeg fel iaith fyw yng nghyd-destun dominyddiad y Saesneg.

Mae aelodau'r bwrdd ymgynghorol fel â ganlyn:

***Comisiynydd y CRE***
**Cherry Short**

***Aelodau Allanol***
**Graham Benfield**
**Dr Rose M D'Sa**
**Catherine Eva**
**Kevin Fitzpatrick**
**Elizabeth Haywood**
**Glen Jordan**
**David Seligman**
**Elan Closs Stephens**
**Fran Targett**
**Charlotte Williams**
**Felicity Williams**
**Neil Wooding**